

## SAUNDERS, THOMAS (1732 - 1790), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** Thomas Saunders  
**Dyddiad geni:** 1732  
**Dyddiad marw:** 1790  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1732; ni wyddys ddim am ei ddechreuadau, ond gellid meddwl mai gŵr o Bontypŵl ydoedd - hyd yn oed pan oedd yn weinidog urddedig, daliodd i fyw ym Mhont-y-moel ac i weithredu fel goruchwyliwr yng ngwaith haearn Hanbury. I bob golwg, un o ddychweledigion y diwygiad Methodistaidd oedd Saunders; 'Methodistaidd' oedd ei ddull o bregethu; a chyhudda Philip David ef o 'preaching like the Methodists, observing no order, but rambling,' ac o wahodd lled-Fethodistiaid eraill 'to give a rant' yn ei gapel yng Nghasnewydd (*Cofiadur*, 1935, 37); ar y llaw arall, wrth gwrs, rhydd Edmund Jones (Trevecka Letter 2724) ganmoliaeth uchel iddo. Urddwyd ef, ddiwedd 1769, yn weinidog Llanfaches a'i changen yn Heol-y-felin, Casnewydd; yr oedd ganddo hefyd gynulleidfa ym Machen. Bu farw 9 Ionawr 1790, 'yn 58 oed,' a chladdwyd wrth gapel Heol-y-felin.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 56, 60

a'r cyfeiriadau eraill uchod

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734528

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrefydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



#### Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). SAUNDERS, THOMAS (1732 - 1790), gweinidog gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 23 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SAUN-THO-1732>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government